| | |
|---|---|
| **Enw'r Polisi:** | Codi Tâl ar weithgareddau Ysgol |
| **Dyddiad Derbyn:** | Tachwedd 2024 |
| **Dyddiad Adolygu:** | Tachwedd 2026 |
| **Polisi Clwstwr neu Ysgol:** | Polisi Clwstwr Glan Clwyd |
| **Polisi Statudol neu an-statudol:** | Statudol |

## Pwrpas y Polisi

Pwrpas y polisi hwn yw egluro'r taliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau o fewn yr ysgol. Mae'r polisi wedi'i lunio yn unol ag Adrannau 449-462 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n egluro'r gyfraith ynghylch y taliadau y gellir ac na ellir eu codi am weithgareddau mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

## 1.0 Amgylchiadau pan na chodir tâl

Ni chodir tâl am y canlynol:

### 1.1 Addysg yn yr ysgol

- Addysg a ddarperir yn llwyr neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol.
- Achos o dderbyn plant o oedran ysgol gorfodol i'r ysgol.
- Gweithgareddau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur arholiad penodedig, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Unrhyw ddeunyddiau, llyfrau ac offerynnau neu gyfarpar arall a ddarperir.

### 1.2 Trafnidiaeth

- Cludo disgyblion cofrestredig yn ôl ac ymlaen i safle'r ysgol, os oes rheidrwydd statudol ar yr awdurdod lleol i ddarparu trafnidiaeth.
- Cludo disgyblion cofrestredig i safle arall lle mae'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi trefnu i ddisgyblion gael eu haddysgu.
- Trefnu trafnidiaeth sy'n galluogi disgybl i fodloni gofyniad arholiad, pan fo wedi'i baratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw yn yr ysgol.
- Trefnu trafnidiaeth a ddarperir yng nghyswllt ymweliad addysgol sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**1.3 Ymweliadau preswyl**

- Addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol.
- Addysg a ddarperir yn ystod unrhyw ymweliad sy'n digwydd y tu allan i oriau ysgol, os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Athrawon llanw i weithio yn lle'r athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol am eu bod yn mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl.

**1.4 Hyfforddiant offerynnau cerdd**

- Plant sy'n dysgu canu offerynnau cerdd yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer gan yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol; neu
- Cost sydd ynghlwm wrth baratoi disgybl ar gyfer arholiad.

**1.5 Ffïoedd arholiadau**

- Ffi gofrestru ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig, os yw'r disgybl wedi'i baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu ffi gofrestru ar gyfer ailsefyll arholiad os yw'r disgybl yn cael ei baratoi ar gyfer yr arholiad dan sylw yn yr ysgol.

## 2.0 Amgylchiadau pan gaiff yr ysgol godi tâl ar rieni

**Gweithgareddau ychwanegol dewisol**

Gellir codi tâl am weithgareddau eraill a elwir yn weithgareddau ychwanegol dewisol. Pan fo gweithgaredd ychwanegol dewisol yn cael ei ddarparu, gellir codi tâl fel a ganlyn am ddarparu deunyddiau, llyfrau, offerynnau neu gyfarpar:

**2.1 Addysg**

- Gweithgareddau sy'n digwydd yn llwyr neu'n bennaf y tu allan i amser ysgol, os nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus penodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Deunyddiau a ddefnyddir mewn pynciau ymarferol ac aseiniadau prosiectau, ar yr amod bod y rhieni wedi cytuno o flaen llaw eu bod hwy neu'r disgybl yn dymuno cadw'r cynnyrch gorffenedig, ee cynhwysion neu ddeunyddiau.

### 2.2 Hyfforddiant offerynnau cerdd

- Hyfforddiant offerynnau cerdd a ddarperir i ddisgyblion unigol, neu grŵp o uchafswm o bedwar disgybl, os nad yw'r addysgu'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus y mae'r disgybl yn ei ddilyn.

### 2.3 Trafnidiaeth

- Trafnidiaeth nad oes ei hangen i fynd â'r disgybl i'r ysgol neu safle arall lle mae'r corff llywodraethu wedi trefnu i addysg gael ei darparu i'r disgybl.

### 2.4 Bwyd a Llety

- Cost bwyd a llety ar gyfer teithiau preswyl, hyd yn oed pan fo'r teithiau yn digwydd yn bennaf yn ystod amser ysgol.

## 3.0 Cyfraniadau gwirfoddol

Er na all ysgolion godi tâl am weithgareddau sy'n digwydd yn ystod amser ysgol, gellir gofyn am gyfraniadau gwirfoddol gan rieni ar gyfer gweithgareddau sy'n ategu cwricwlwm arferol yr ysgol.

Bydd ceisiadau i rieni am gyfraniadau gwirfoddol yn nodi:

- nad oes rheidrwydd cyfreithiol i wneud cyfraniad gwirfoddol;
- na fydd disgyblion yn cael eu gadael allan oherwydd anallu neu amharodrwydd eu rhieni i dalu;
- na fydd plant rhieni na all gyfrannu yn cael eu trin yn wahanol mewn unrhyw fodd; a
- y caiff y gweithgaredd ei ganslo os na cheir digon o gyfraniadau gwirfoddol i wneud y gweithgaredd yn bosibl, ac os nad oes ffordd o gyflenwi'r diffyg.

Ni ddylai ceisiadau a wneir am gyfraniadau gwirfoddol yng nghyswllt disgyblion unigol gynnwys unrhyw elfen o gymhorthdal ar gyfer unrhyw ddisgyblion eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y gweithgaredd, nad yw eu rhieni'n fodlon neu'n gallu talu'r tâl llawn.

## 4.0 Torri a difrodi eiddo

Os yw ymddygiad disgybl yn arwain at ddifrod i eiddo neu gyfarpar yr ysgol, ceir gofyn i'r rhieni dalu am y gwaith atgyweirio angenrheidiol neu dalu am eiddo neu gyfarpar newydd. Dylid ymdrin â phob digwyddiad yn ôl ei deilyngdod ac yn ôl disgresiwn yr ysgol.